
# BUDDSODDI

ym

# MRO MORGANNWG

**TIR • LLAFUR • FFORDD O FYW**




VALE OF GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Mae Bro Morgannwg yn un o ardaloedd mwyaf deniadol Cymru ac mae'n cael ei sgorio'n gyson yn un o'r lleoedd gorau i fyw a gweithio ynddynt yng Nghymru.  Mae gan y Fro, gyda seilwaith gwych a buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yr adnoddau perffaith i ddarparu eich holl anghenion busnes ac mae'n lle gwych i'ch cyflogeion alw'n gartref iddynt.



Golwg o Aberthin a Threrhingyll o Fryn Owen, Y Bont-faen
BLAENLUN:  Aston Martin DBX i gael ei greu yn Sain Tathan

> Bydd Llywodraeth y DU yng Nghymru yn parhau i weithio'n agos gydag adrannau Whitehall eraill i hyrwyddo buddiannau'r Fro a sicrhau bod buddsoddwyr a busnesau'n gweld Cymru'n bartner masnachu blaengar.

▶ Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru





Nawr yw'r amser i fuddsoddi ym Mro Morgannwg. Mae Bro Morgannwg, sy'n rhan unigryw ac arbennig o Gymru, wedi'i lleoli i'r gorllewin o'r brifddinas, Caerdydd, ac mae'n cynnwys tref fwyaf Cymru, Arfordir Treftadaeth gogoneddus, ysgolion rhagorol a rhai o'r pentrefi harddaf yng Nghymru.

Hefyd mae'r Fro, sy'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn gartref i Faes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan, lleoliad aerofod blaenllaw'r DU gyda thraddodiad cryf yn y maes aerofod a chynhyrchu cysylltiedig. Mae gan y Fro weithwyr â llawer o sgiliau penigamp a safleoedd allweddol sy'n caniatáu am dwf y dyfodol, a brofwyd gan benderfyniad Aston Martin Lagonda i leoli eu cyfleuster cynhyrchu modern newydd yma, ar gyfer y DBX a'u cerbydau trydanol.

Mae tref y Barri'n parhau i gael ei thrawsnewid o ganlyniad i brojectau adfywio mawr sydd wedi cynnwys adnewyddu adeiladau hanesyddol pwysig er mwyn eu defnyddio'n fasnachol eto a buddsoddiad newydd yn ardaloedd glan môr a glan dŵr y dref.

Rydym yn awyddus i ddenu buddsoddiad newydd ac am gefnogi busnesau cyfredol i dyfu. Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda phartneriaid gan gynnwys llywodraethau Cymru a'r DU i gynnig unrhyw gymorth ymarferol y gallai fod ei angen ar fusnesau. Mae nodi safleoedd buddsoddi, manteisio ar gymorth busnes a chyfeirio at gyllid grant yn rhai o'r pethau y gallwn eu cynnig.

Rydym hefyd yn gweld buddsoddi heb ei debyg o'r blaen mewn cysylltiadau trafnidiaeth gyda phrojectau seilwaith ffordd sy'n gwella mynediad i safleoedd allweddol o bob cyfeiriad; rhaglen uchelgeisiol gwerth miliynau o bunnoedd yn ein hysgolion a'n colegau; a marchnad tai eithriadol o fywiog gyda buddsoddiad yn y 9,000 o gartrefi newydd sydd gennym.

Heb os, mae apêl yr ardal, ansawdd yr ysgolion, a'r buddsoddiad mewn swyddi a chyfleoedd o safon i gyd yn sicrhau bod Bro Morgannwg yn un o'r lleoedd mwyaf deniadol i fyw a gweithio ynddynt yn y DU.

**John Thomas**
Arweinydd, Cyngor Bro Morgannwg

**Rob Thomas**
Rheolwr Gyfarwyddwr

# PAM Y FRO?

- Cronfa gweithwyr dawnus
- Maes awyr gyda chysylltedd byd-eang
- Mwy na 9,000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu
- Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gwerth £1.2 Biliwn
- 53km o arfordir a thraethau aruthrol

- Buddsoddi mewn trafnidiaeth a seilwaith
- Maes Awyr yng Nghaerdydd ac Ardal Fenter yn Sain Tathan sy’n fywiog ac yn ymestyn
- Ysgolion sy’n perfformio’n dda
- Pentrefi a threfi hanesyddol hardd, arobryn



Trwyn yr As, Arfordir Treftadaeth Morgannwg



> Nawr yw'r amser i ddod â'ch busnes i'r Fro, gyda buddsoddi sylweddol ar lefel rhanbarthol a lleol. Rwy'n falch ein bod yn cefnogi busnesau dinesig a gwledig o bob maint.  Mae'r Cyngor wedi hyrwyddo nifer o ddatblygiadau sector preifat ac, o safbwynt cynllunio, rydym am i fusnesau wybod ein bod yn agored iawn i fusnes.

▸ Y Cynghorydd Jonathan Bird, Aelod Cabinet Cyngor Bro Morgannwg dros Adfywio a Chynllunio

# CYSYLLTIEDIG

Mae lleoliad y Fro yn Ne Cymru, nid nepell o brifddinas Cymru, Caerdydd, yn golygu bod ganddi gysylltiadau gwych â gweddill y DU a'r byd, boed trwy'r awyr, ar drên neu mewn car.

Mae ei lleoliad ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd yn galluogi iddi fanteisio ar raglen fuddsoddi gwerth £1.2 biliwn.

Y defnydd ar seilwaith band eang cyflym yma yw'r uchaf yng Nghymru.

## Buddsoddi mewn Trafnidiaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £31 miliwn ar gyfer cysylltiadau ffordd newydd â Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan i wella cysylltedd busnes.

- Yn agos at Gaerdydd, Bryste, Birmingham
- Bydd taith ar drên o Gaerdydd i Lundain yn llai na 2 awr o 2020
- Cysylltedd hedfan byd-eang gwych
- Poblogaeth o 130,700
- Cartref i 14,320 o fusnesau
- Cysylltiad masnach rhyngwladol hollbwysig o borthladd y Barri

▼ Llwybrau Hedfan Uniongyrchol o Fro Morgannwg







## Prifddinas-ranbarth Ffyniannus i Dde-ddwyrain Cymru

Rhaglen £1.2 biliwn a gytunwyd yn 2016 rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r deg awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ei nod yw creu twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth trwy fuddsoddi, gwella sgiliau a chreu cysylltedd digidol a ffisegol gwell. Bydd y system Metro newydd yn trawsnewid y ffordd mae pobl yn teithio o gwmpas Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Bydd yn creu gwasanaeth ar y cyd mwy aml a chyflym trwy ddefnyddio trenau, bysus a rheilffordd ysgafn. I gael mwy o wybodaeth, ewch i http://www.cardiffcapitalregion.wales/cy

Prifddinas Ranbarth Caerdydd | Cardiff Capital Region



▲ Map Llwybrau Metro Posibl

> Nod y Fargen Ddinesig yn y bôn yw cryfhau ac atgyfnerthu cryfderau sectoraidd allweddol trwy ddull sy'n canolbwyntio ar yrru arloesedd, buddsoddi, hyrwyddo datblygu seilwaith a cheisio ymatebion i rai o'r heriau mawr.

▶ Kellie Beirne, Cyfarwyddwr
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

# PORTH I GYMRU




Qatar Airways yn paratoi i ddechrau hedfan o Faes Awyr Caerdydd

Mae Maes Awyr Caerdydd, sydd yng nghanol Bro Morgannwg, yn faes awyr cenedlaethol Cymru ac yn un o'r prif byrth i'r DU ar gyfer cwsmeriaid busnes a hamdden rhyngwladol. Ar hyn o bryd mae 18 cwmni hedfan yn gweithredu o Gaerdydd, gan gynnig mynediad i lu o leoedd ledled y byd, gan gynnwys hediadau uniongyrchol i hybiau byd-eang yn Doha ac Amsterdam.

Mae'r Maes Awyr yn elwa ar hyn gan ei fod yn Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd, sy'n cynnig cyfleoedd heb gystadleuaeth i fuddsoddi yn y safle a'r cyffiniau. Mae'r Ardal Fenter gysylltiedig yn cynnig ystod ehangach o safleoedd datblygu ac adeiladau busnes, gan gynnig cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau pwrpasol neu i fuddsoddi yn yr adeiladau cyfredol.

Mae nifer y teithwyr sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd wedi tyfu'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae'r maes awyr yn paratoi i edrych i'r dyfodol, gan lunio cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu'r maes awyr dros yr 20 mlynedd nesaf. Ei weledigaeth yw bod yn faes awyr arloesol y gall Cymru ymfalchïo ynddo.

Mae uchafbwyntiau Prif Gynllun Maes Awyr Caerdydd yn cynnwys:

- Creu mwy o le er mwyn cynyddu nifer y teithwyr y flwyddyn i dair miliwn;
- Denu cwmnïau hedfan newydd, sicrhau llwybrau newydd;
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer hedfan, cargo, addysg, technoleg ac arloesedd;
- Terfynfa newydd sy'n ymgorffori technoleg CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) i wella profiad cwsmeriaid;
- Datblygu gwesty 4 seren newydd sy'n cynnig cyfleusterau cynadledda;
- Hyb trafnidiaeth a maes parcio newydd.









Uwchgynllun Maes Awyr Caerdydd





# ARDAL FENTER

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn y seilwaith busnes yn Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd.  Mae wedi'i blaenoriaethu ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf, mae ganddi fand eang y genhedlaeth nesaf, mae ganddi weithlu lleol medrus, a chysylltiadau trafnidiaeth awyr a thir gwych, gan ei gwneud yn lle perffaith ar gyfer buddsoddi mewn busnesau a thyfu busnesau.

Mae sectorau'r cynnwys meysydd aerofod, amddiffyn, modurol, cynhyrchu, peirianneg a chreadigol.  Mae ei hanes hir yn y diwydiannau hyn wedi darparu'r cyfleusterau, y sgiliau, y profiad a'r gadwyn gyflenwi leol i wneud Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd yn lleoliad sy'n wirioneddol flaenllaw i fusnesau.

Mae cysylltiadau hirsefydlog â phrifysgolion Cymru a darparwyr hyfforddiant aerofod o'r radd flaenaf sy'n gweithredu'n gyfagos â'r maes awyr yn y Ganolfan Ryngwladol dros Hyfforddiant Aerofod.

Yn gartref i nifer o fusnesau ar hyn o bryd, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, British Airways Maintenance Cardiff (BAMC), E-Cube Solutions, Cardiff Aviation a chyfleuster cynhyrchu a datblygu Aston Martin Lagonda.

> "Mae mynediad heb gyfyngiad i gerbydau gyrraedd y Parc Busnes Aerofod yn hanfodol i'w alluogi i gystadlu ar lwyfan rhyngwladol a mwyhau'r buddion economaidd a geir trwy godi ei broffil fel hyn.  Mae ffordd fynediad y gogledd yn rhoi mynediad addas at y diben i'r parc busnes fel bod modd i gerbydau o bob maint, gan gynnwys y rhai logisteg, gyrraedd rhwydwaith priffyrdd y wlad. Bydd y ffordd newydd yn galluogi twf llwyddiannus yn y dyfodol.  Mae'r un project hwn yn cyflawni tair rôl sydd yr un mor bwysig, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi gallu buddsoddi ynddo."

▸ Ken Skates AS,
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth



Golwg o'r awyr o Ardal Fenter Sain Tathan

IMAGE: © Crown copyright 2018 (Visit Wales)



The Lagonda Vision Concept

Cyhoeddodd y gwneuthurwr ceir Prydeinig eiconig Aston Martin Lagonda yn 2016 y byddai'n agor lleoliad gweithgynhyrchu yn Sain Tathan. Wedi i'r safle 90 erw yn Sain Tathan greu argraff ar y cwmni, curodd Bro Morgannwg nifer o safleoedd cystadleuol i fod yr ail leoliad gweithgynhyrchu i Aston Martin lle y bydd yn creu eu SUV moethus cyntaf, y DBX.

Roedd manteision y lleoliad yn yr ardal fenter yn cynnwys seilwaith cyfredol ar gyfer gweithgarwch diwydiannol. Mae yn ne Cymru gronfa gweithwyr o safon a llywodraeth sydd â rhan weithredol yn y gwaith o ddenu mewnfuddsoddiad.

Disgwylir i'r DBX gael ei ddatguddio ddiwedd 2019 a'i adeiladu mewn ffatri weithgynhyrchu foethus a modern a fydd yn y pen draw yn dod yn "Gartref Trydaneiddio" pan fydd y modelau trydan llawn yn dechrau cael eu cynhyrchu.

Caiff cerbydau trydan batri newydd Aston Martin eu gwneud ym Mro Morgannwg, a fydd hefyd yn gartref gweithgynhyrchu ar gyfer eu brand Lagonda.

Eisoes yn gartref i oddeutu 200 o gyflogeion, mae Sain Tathan bron wedi'i gwblhau ac mae'r gwaith o adeiladu'r llinell gynhyrchu ymhell ar y gweill. Gyda'r gwaith o gynhyrchu'r modelau prototeip cyntaf yn ail chwarter 2019, bydd y gweithlu'n parhau i dyfu yn ystod y flwyddyn i fwy na 600 erbyn chwarter cyntaf 2020 wrth gynhyrchu rhagor o gerbydau DBX.

"Wrth i'r gwaith o greu cyfleuster Sain Tathan ddod i ben, mae synnwyr go iawn mai hyn fydd dechrau oes newydd fentrus i Aston Martin Lagonda", meddai Dr Andy Palmer, Prif Swyddog Gweithredol Grŵp a Llywydd Aston Martin Lagonda. "I ddechrau bydd cyfleuster Sain Tathan yn dechrau cynhyrchu ein SUV cyntaf ond yn y pen draw bydd yn ganolfan ragoriaeth fyd-eang dros gynhyrchu cerbydau trydan, gan gynnwys Lagonda: brand modurol trydan moethus cyntaf y byd".

> "Archwiliodd y brand moethus 20 lleoliad posibl ledled y byd, yn bennaf yng Ngogledd America, Dwyrain Ewrop a'r DU. O ddechrau'r broses, roedd Sain Tathan yn un o'r lleoliadau blaenaf."

▸ Simon Sproule, Is-lywydd a Phrif Swyddog Marchnata yn Aston Martin Lagonda



Aston Martin DBX



Aston Martin Lagonda, Ardal Fenter Sain Tathan

# AEROFOD



eCube Solutions

"Mae'r diwydiant aerofod yng Nghymru yn ffynnu, ac mae Cymru yn darparu hyfforddiant, arloesedd ac arbenigedd o'r radd flaenaf, o ymchwil prifysgolion i brojectau llywodraeth a'r sector preifat. Brwdfrydedd dros gynnydd ydyw. Grym gyriadol sydd wedi denu rhai o gwmnïau mwyaf blaenllaw'r byd i Gymru, gan gynnwys BAE Systems, British Airways, GE Aviation, General Dynamics, Raytheon, Zodiac Seats a Qioptiq. Mae Airbus Group yng ngogledd Cymru yn cyflogi 6,500 o bobl yn eu ffatri adenydd awyrennau sifil. Bellach gall Cymru gynnig rhai o'r lefelau uchaf o fentrau ariannol yn y DU ac mae gan y sector ei Ardal Fenter ei hun yn Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd ac mae'n rhan allweddol o Ardaloedd Menter Ynys Môn, Eryri a Glannau Dyfrdwy."

▸ Masnach a Buddsoddi Cymru

## eCube Solutions

Yn wreiddiol, roedd eCube Solutions, a ffurfiwyd yn 2011 ac sy'n chwaraewr byd-eang yn y diwydiant gwasanaethau hedfan, yn arbenigo mewn projectau awyrennau 'diwedd bywyd'. Wedyn datblygodd y busnes hwn yn y Fro arbenigedd mewn creu atebion cyflawn, gan amrywio o barcio a storio awyrennau i reoli rhestrau eiddo a logisteg trydydd parti.

eCUBE SOLUTIONS | **60** O GYFLOGEION | SECTOR: AEROFOD



eCube Solutions

> Mae argaeledd y seilwaith yn Sain Tathan wedi'i gyfuno â'r gronfa talentog yn y rhanbarth wedi'i wneud yn ddewis perffaith i ni.

▸ Mike Corne, Cyfarwyddwr Masnachol a Perchennog eCube Solutions



economic@valeofglamorgan.gov.uk | 01446 704636




## British Airways Maintenance Cardiff


"Os ydych erioed wedi teithio mewn 747 – neu nifer o fathau eraill o Boeing – mae bron yn sicr bod British Airways Maintenance Cardiff (BAMC) wedi gofalu amdanynt ar ryw adeg.

Ac yntau'n ganolfan rhagoriaeth arloesedd, mae'r safle cynnal a chadw pwrpasol ym Maes Awyr Caerdydd yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod rhai o awyrennau mwyaf trawiadol y byd yn cael eu hatgyweirio i'r safonau uchaf posibl, gan weithio'n gyflym ac yn ddiwyd i sicrhau y cydymffurfir â gwiriadau diogelwch caeth ac y sylwir ar yr arwydd lleiaf o ddifrod.

Un o'r prif resymau dros leoliad y cyfleuster ardderchog hwn, sy'n dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed yn y maes awyr eleni, yw'r talent technolegol lleol sydd ar gael, yn ogystal â chefnogaeth y llywodraeth. Mae prifysgolion a cholegau lleol yn darparu'r ymgeiswyr peirianneg addawol sy'n cyflawni prentisiaethau a helpu i fynd i'r afael â phrojectau cymhleth yn y awyrendai, wedi'u hysbrydoli gan leoedd megis y Ganolfan Aerofod ym Mhrifysgol Cymru, lle agorodd British Airways estyniad newydd yn 2015.

Mae cenedlaethau o'r un teuluoedd wedi gweithio yma, ac mae cyflogeion yn ymfalchïo'n enfawr yn y rhan maent yn ei chwarae yn y gwaith o ddatrys heriau mecanyddol hanfodol. Mae cysylltiadau traffordd gwych â phrif ganolfan peirianneg British Airways, yn Heathrow, yn gryfder strategol arall i'r cwmni."

▶ Masnach a Buddsoddi Cymru



# ARLOESEDD

## Renishaw plc

Mae Renishaw plc yn un o gwmnïau blaenllaw'r byd ym maes technoleg peirianneg a gwyddoniaeth ac yn cyflogi 5,000 o bobl ledled y byd  Mae rhyw 95% o drosiant y cwmni, sydd ar restr 250 FTSE, o ganlyniad i allforiadau, ac mae ei farchnadoedd mwyaf yn Tsieina, UDA, yr Almaen a Japan.

Defnyddir cynhyrchion y cwmni gan wneuthurwyr ledled y byd i greu cydrannau o ansawdd i ddiwydiannau megis aerofod, modurol, adeiladu, amaethyddol ac electroneg cwsmeriaid.  Hefyd Renishaw yw unig wneuthurwr y DU o beiriannau cynhyrchu ychwanegion metel (argraffu 3D) a hefyd mae'n defnyddio ei arbenigedd o ran rhaglenni gofal iechyd megis deintyddiaeth, niwrolawdriniaeth a llawdriniaethau ailadeiladu'r wyneb.

Yn 2011 prynodd safle 193 erw ym Mro Morgannwg, lle mae bellach wedi buddsoddi mwy na £45 miliwn i greu cyfleuster cynhyrchu technoleg uwch modern, yn ogystal â chanolfan ragoriaeth dros ofal iechyd, cyfleusterau ymchwil a datblygu a chanolfan addysg i ysgolion.

Denwyd Renishaw i'r ardal o ganlyniad i faint y safle sy'n rhoi'r cyfle i dyfu dros y tymor hir, cysylltiadau trafnidiaeth da, cronfa gweithwyr medrus o bob rhan o dde Cymru, yn ogystal ag agosrwydd at ardal gref o sefydliadau addysg uwch a phartneriaid gwyddorau bywyd/peirianneg posibl.

Er mwyn darparu ar gyfer ei datblygiad yn y dyfodol mae'r cwmni wedi amlinellu caniatâd cynllunio ar gyfer 1.7 miliwn tr. sgw. o ddatblygu ar y safle.  Bydd y cyfleusterau arfaethedig yn darparu lle ychwanegol ar gyfer Renishaw a busnesau eraill i sefydlu gweithrediadau ar y safle.






Cyfleuster cynhyrchu Renishaw plc



Cyfleuster gofal iechyd dynodedig

> Mae agosrwydd safle Meisgyn at gysylltiadau trafnidiaeth da, cymunedau gyda sgiliau peirianneg, ac amrywiaeth eang o bartneriaeth cydweithredu posibl yn y meysydd peirianneg a gwyddorau bywyd, wedi rhoi'r cyfle i Renishaw i greu canolfannau arbenigedd newydd a swyddi newydd.
>
> ▸ William Lee, Prif Weithredwr Renishaw plc

Renishaw plc

**450**

O GYFLOGEION

SECTOR:
PEIRIANNEG
UWCH





Allgymorth addysgol


Gweithio gydag ysgolion

# SUT GALLWN NI HELPU?



Pier Penarth

**Gall Cyngor y Fro:**

- Hwyluso trafodaeth gyfrinachol â phartneriaid allweddol gan gynnwys asiantaethau cymorth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru megis Trade & Invest Wales a Busnes Cymru
- Eich helpu i greu cysylltiadau â busnesau eraill yn y rhanbarth
- Cynnal gweithdai a digwyddiadau busnes
- Cefnogi cyfleoedd cadwyni cyflenwi a chaffael
- Rhoi gwybodaeth am gynllunio a deddfwriaeth arall
- Gweithio gyda chi i edrych ar gyfleoedd buddsoddi a datblygu
- Eich galluogi i weld ystadegau a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â Bro Morgannwg
- Cyfeirio at ffynonellau cyllid
- Cynnal eich busnes yn un o'n llu o unedau busnes

Mae Cyngor Bro Morgannwg ar agor ac wedi ymrwymo'n llawn i'ch helpu i dyfu eich busnes neu i fuddsoddi yn y Fro.

## Unedau Busnes Cyngor Bro Morgannwg

Yn ogystal â gweithio gydag asiantau, perchenogion eiddo a datblygwyr safleoedd cyflogaeth i roi gwybod i chi am y mannau masnachol sydd ar gael, gall Cyngor Bro Morgannwg gynnig lle i fusnesau yn un o'i safleoedd masnachol.






### BSC a BSC$^2$

Mae BSC a BSC$^2$ yng nghanol Ardal Arloesedd Glannau'r Barri, yn agos at orsaf drenau'r Barri. Maent yn elwa ar olygfeydd o lan y dŵr a 29 swyddfa sy'n amrywio o ran maint o 8m$^2$ i 122m$^2$. Mae llawr gwaelod y BSC yn cynnwys 8 gweithdy sy'n amrywio o ran maint o 48 i 97$^2$. Mae cyfleusterau a ddarperir yn y ddau safle'n cynnwys:

- Digon o le i barcio
- Ystafell gyfarfod ar y safle
- Lle egwyl
- Cyfleusterau cegin

### Canolfan Fenter y Fro

Mae'r ganolfan, sydd yn Hayes Road, Sili, yn gartref i amrywiaeth o unedau gan gynnwys mannau ar gyfer swyddfeydd, gweithdai a storio. Mae 61 uned sy'n amrywio o ran maint o 10 i 132m$^2$.


economic@valeofglamorgan.gov.uk | 01446 704636



### Canolfan Fenter Gymunedol y Barri

Mae llawer o fentrau cymdeithasol a chymunedol wedi defnyddio'r ganolfan yn y gorffennol. Mae swyddfeydd a gweithdai yn amrywio o ran maint o 8 i 53m² ac mae'r ganolfan yn cynnig:

- Digon o le i barcio
- Ystafell gyfarfod ar y safle
- Cyfleusterau cegin

### Unedau Storio Bae Dwnrhefn

Yn gyfagos i Ganolfan yr Arfordir Treftadaeth ym mae hardd Dwnrhefn, mae unedau ar gael i fentrau arfordirol eu rhentu. Mae 5 uned sy'n amrywio o 9m² i 12m².

## Lle arall sydd ar gael

Mae'r Ganolfan Fusnes yn y Barri'n darparu cyfleusterau swyddfa wedi'u gwasanaethu; gan gynnig lle i gydweithio, swyddfeydd wedi'u gwasanaethu hyblyg neu swyddfeydd a rennir. Gellir teilwra eu gwasanaethau pwrpasol er mwyn bodloni busnes o unrhyw faint. Mae'r Ganolfan, sydd 10 munud i ffwrdd o Benarth a Bae Caerdydd, yn ddigon agos at ganol Caerdydd er mwyn manteisio ar yr hyn sydd ganddo i'w gynnig. Hefyd mae'n hawdd cyrraedd yr M4 a Maes Awyr Caerdydd o'r Ganolfan ac mae modd parcio yno am ddim.

Mae yn lle swyddfa Tec Marina 31 swyddfa breifat o bob maint wedi'i dodrefnu'n llawn. Maent wedi gweithio i greu cartref bywiog i dimau sydd am ddatblygu ac arloesi. Caiff yr holl breswylwyr Tec Marina eu croesawu a'u hannog i wneud defnydd llawn ar eu hystafelloedd egwyl ysbrydoledig, gan gynnwys yr atriwm llawn cyffro, ardaloedd cegin lliwgar, campfa ar y safle ac ystafell gemau a dewis da o adnoddau.

> "I ni, mae'r Ganolfan Fusnes yn hyblyg iawn, o ran lle a gwasanaethau, megis lle cyfarfod a pharcio. Mae'r gampfa'n rhoi lle i'n staff ymlacio ac rydym yn teimlo'n rhan o gymuned."

▶ Philippa George, Prif Swyddog Gweithredol, Pier Group Holdings

> "Peth mawr i fi oedd creu lle sy'n hyrwyddo ymgysylltu â chyflogeion. Pan fo cyflogeion yn hapus yn eu hamgylchedd gwaith, maent yn fwy tebygol o aros gyda'r cwmni am hirach, lleihau nifer eu diwrnodau o salwch a theimlo'n falch o'u sefydliad."

▶ Chris Griffiths, Prif Swyddog Gweithredol OpenGenius



Tec Marina



Y Ganolfan Fusnes

# ADFYWIO'R BARRI



Glannau'r Barri

Mae tref y Barri'n parhau i gael ei thrawsnewid trwy brojectau adnewyddu mawr mewn partneriaeth â chyngor Bro Morgannwg. Mae adeiladau hanesyddol pwysig yn cael eu hadnewyddu at ddiben masnachol yn llwyddiannus, ynghyd â buddsoddiad newydd yn ardaloedd glan môr a glan dŵr y dref.

Mae'r gwaith cynhwysfawr o adfywio'r safle 100 erw wedi creu cyswllt ffordd newydd ag Ynys y Barri, gan gysylltu'r lle twristiaeth poblogaidd hwn â'r datblygiad.

Mae tua 2,000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ochr yn ochr â buddsoddiad preifat mewn gwesty newydd a mentrau manwerthu eraill.  Mae Cei'r De yn cynnig lle hamdden allweddol sy'n bodloni anghenion trigolion ac ymwelwyr y dyfodol.  Cydnabyddir perthynas glan y dŵr â'r dociau yn gyfle unigryw i ddarparu cyfleusterau cymunedol sy'n cefnogi gweithgareddau yn y dŵr gyda'r posibilrwydd o ddatblygu marina yn y Barri.

> "Rydym yn awyddus i ddenu buddsoddiad newydd ac am gefnogi busnesau cyfredol i dyfu.  Bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Phartneriaid megis Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gynnig unrhyw gymorth ymarferol y gallai fod ei angen ar fusnesau. Mae nodi safleoedd buddsoddi, manteisio ar gymorth busnes a chyfeirio at gyllid grant yn rhai o'r pethau y gallwn ni eu cynnig."

▸ Rob Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr, Cyngor Bro Morgannwg






economic@valeofglamorgan.gov.uk | 01446 704636

## Ar Agor i Fasnachu

### Buddsoddwyr preifat yn dangos eu ffydd yng nglannau'r Barri

Ar hyn o bryd mae Loftco yn cydweithredu â'r Cyngor i adeiladu'r hyn a fydd, yn eu barn nhw, y Stryd Fawr Ddinesig gyntaf yn y DU. Bydd Goodsheds ar ei newydd wedd yn gynllun 24/7 sy'n adlewyrchu deinameg tref arfordirol sy'n datblygu'n gyflym yn ystod gwaith adfywio sylweddol.

Mae'r project cyffrous hwn yn dilyn y cynllun amlddefnydd wedi'i adnewyddu'n ddiweddar yn y tŷ pwmpio gerllaw. Mae'r gwaith arloesol o ailddatblygu adeilad hanesyddol yn cynnwys unedau gwaith byw, campfa a thai bwyta. Cyrhaeddodd y rownd derfynol yng ngwobrau Grand Design ac ystyrir yn un o'r projectau adfywio mwyaf llwyddiannus yn ne Cymru.




Argraff arlunydd o Goodsheds



Hang Fire Southern Kitchen, Y Tŷ Pwmpio, Y Barri

> "Rwy'n credu bod y Fro yn lle perffaith i allu byw, gweithio a chwarae."

▶ Simon Baston, Rheolwr Gyfarwyddwr, Loftco



Y Tŷ Pwmpio, Y Barri

## Hang Fire Southern Kitchen

Wedi gadael eu gyrfaoedd hirdymor yn Llundain, dechreuodd Shauna a Sam, daith ffordd chwe mis ar draws America i ddarganfod dirgelion y barbeciw Americanaidd. Yn fuan ar ôl hyn dechreuon nhw gynnal nosweithiau untro mewn tafarnau yng Nghaerdydd. Nid oedd yn hir cyn i'r fenter bwyd stryd hon ei throi yn llwyddiant BBQ Cymreig i raddfa helaeth ac enillon nhw y wobr 'Bwyd Stryd Gorau' chwenychedig yng Ngwobrau Bwyd a Ffermio Radio 4 y BBC am eu barbeciw.

Yn 2016 dewison nhw Lannau'r Barri i fod y lleoliad am eu bwyty parhaol cyntaf. Mae Hang Fire Southern Kitchen, sydd wedi'i leoli mewn Tŷ Pwmpio Fictoraidd Gradd II a adnewyddwyd â pharch a hoffter, yn dibynnu ar gynnyrch ffres a moesegol yn unig. Roedd yr holl waith caled hwn yn werth chweil gan y cafodd y bwyty ei enwi'n un gorau'r DU yn yr Observer Food Monthly Awards 2018.

> "Mae'r synnwyr o ysbryd cymuned yn amlwg yn y Barri, ac fel mae'n digwydd, hi yw'r dref fwyaf yng Nghymru. Cwympon ni mewn cariad â'r Tŷ Pwmpio Fictoraidd, sydd ag un o'r simneiau mwyaf o waith llaw yng Nghymru – ddim yn ddrwg am dŷ mwg. Dros y 3 blynedd ddiwethaf rydym wedi creu 22 swydd newydd sbon ac mae'r rhan fwyaf o'n tîm yn byw yn lleol."

▶ Shauna Guinn, Cydberchennog, Hang Fire Southern Kitchen








Shauna and Sam, Hang Fire Southern Kitchen

Hang Fire Southern Kitchen | **22** CYFLOGAI | SECTOR: BWYD



Golwg o'r awyr o'r Barri ac Ynys y Barri


Argraff arlunydd o Fwyty Trwyn Nell

## Cyfle i Ddatblygu Gwesty

### Trwyn Nell, Ynys y Barri

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gwahodd ceisiadau gan brynwyr posibl o'r prydles 999 o flynyddoedd (ar rent tir 'grawn pupur') yn y tir yn Nhrwyn Nell, Ynys y Barri.

Yn y gorffennol roedd y safle yn cael ei ddefnyddio yn rhan o wersyllfa gwyliau Butlin's ar yr ynys nes iddi gael ei chau ym 1997. Gwerthwyd rhan o'r safle i Bovis Homes ar gyfer datblygiad tai yn 1998 a chadwyd rhan arall yn fan agored cyhoeddus. Y safle dan sylw yw'r tir sy'n weddill ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ddefnyddio'n rhannol gan y Cyngor fel maes parcio ychwanegol i'r ynys.

Mae'r Cyngor yn awyddus i sicrhau prynwyr sydd wedi ymrwymo i adeiladu datblygiad o ffurf gynaliadwy ar y safle. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cynllun busnes amlinellol sy'n dangos project sy'n gynaliadwy'n ariannol, a bydd y Cyngor o blaid ceisiadau sy'n cyflwyno defnyddiau twristiaeth a hamdden cynaliadwy ar gyfer yr holl dir neu ran ohono. Ystyrir hefyd ymgeiswyr sy'n cyflwyno cynigion a fydd yn creu buddion adfywio lleol sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu a phan fo'r datblygiad yn cael ei ddefnyddio ar ôl ei gwblhau.

Yn hyn o beth bydd angen i'r prynwr llwyddiannus ymrwymo dan gontract i ddarparu pecyn buddion cymunedol a chymdeithasol.

Manylion y safle:

- Safle 10 erw
- Gwesty gyda 100 o ystafelloedd gwely
- Cyfle i adeiladu campfa a chyfleusterau hamdden eraill
- 3.97m o bobl ymwelodd â'r Fro yn 2017

Am ragor o fanylion cysylltwch â economic@valeofglamorgan.gov.uk.

## Datblygu Bwyty Trwyn Nell

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi gweithio gyda datblygwyr preifat i alluogi'r gwaith o drawsnewid ystafelloedd newid eiconig yn ddatblygiad bwyty glan môr newydd.

# UNIGOLION BLAENGAR

Mae busnesau bach yn gyfranwyr mawr at economi'r Fro. Mae Cyngor y Fro yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod busnesau o unrhyw faint yn derbyn pecyn cymorth cynhwysfawr.

Mae partneriaid yn cynnwys:

- Busnes Cymru
- Banc Datblygu Cymru
- Cyflymu Cymru i Fusnesau
- Busnes Cymdeithasol Cymru
- Croeso Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth y DU
- Masnach a Buddsoddi Cymru

## The Goodwash Company

Brand Cymreig gyda chydwybod cymdeithasol diymhongar sy'n gweithio o fferm ym Mro Morgannwg yw The Goodwash Company.

Mae wedi cael cefnogaeth wych gan fusnesau lleol yn ardal y Barri. Mae Sam a Shauna wedi prynu sebon dwylo i'w hystafelloedd ymolchi yn eu Hang Fire Southern Kitchen, ynghyd â The Sausage Revolution yn Atlantic Way.

"Mae Goodwash wedi cael cefnogaeth werthfawr gan Fusnes Cymdeithasol Cymru yn ogystal â mentoriaeth busnes gan Raglen Cyflymu Twf Busnes Cymru. Yn benodol, mae'r gefnogaeth hon wedi'n helpu gyda meysydd allweddol megis marchnata, cynllunio ariannol a chymorth gweithredol."









> "Rydym yn falch iawn o fod yn fusnes lleol yn y Barri. Mae'r traethau, yr arfordir, y bwytai a'r rhwydweithiau busnes newydd yn ei wneud yn lle cyffrous i fyw a gweithio. Mae tîm Cyngor y Fro wedi bod yn eithriadol gefnogol ac am ddatblygu ac arloesi."

▸ Mandy Powell, Cyfarwyddwr, Goodwash

## LIGNIA Wood Company

Mae LIGNIA Wood Company Ltd, cynhyrchwr pren cynaliadwy wedi'i addasu yn y Barri wedi sicrhau £7.5 miliwn, sy'n cynnwys £3 miliwn gan reolwr buddsoddi yn Llundain, £2 miliwn gan Fanc Datblygu Cymru a £2.5 miliwn gan fuddsoddwr presennol Woodford Investment Management.

Mae'r cwmni yn helpu i fynd i'r afael â materion ynghylch cyflenwadau cyfyngedig o bren caled cynaliadwy a chyfreithlon – megis lleihau datgoedwigo a chodi ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd – trwy gynhyrchu pren wedi'i addasu gyda'r enw brand LIGNIA®.

Cynhyrchir LIGNIA o ffynonellau pinwydd ar blanhigfeydd a reolir yn gynaliadwy sy'n cael eu ffrwythloni gyda resin i wneud pren wedi'i addasu sydd â gwell olwg, gwydnwch, sefydlogrwydd a gallu i wrthsefyll tân na llawer o brennau caled gwerth uchel megis derw a thîc. Bydd ffatri gynhyrchu fasnachol gyntaf y cwmni yn gallu cynhyrchu hyd at 15,000m$^3$ bob blwyddyn.

Dywedodd Sean Moore, Cyfarwyddwr Buddsoddi Cymru, "Mae Cymru yn lle diddorol dros ben i ddod o hyd i gyfleoedd ar hyn o bryd, p'un a yw hynny o blith dawn dechnegol yng Nghaerdydd neu fusnesau lleol arloesol megis LIGNIA Wood Company y tu allan i'r brifddinas".




"Fel cynhyrchydd busnes bach a chanolig yn sefydlu cwmni yn y Fro, un o'r pethau rydym wedi'i gael yn fwyaf defnyddiol yw'r cyfeirio at gymorth busnes ar wefan y Fro a'r digwyddiadau wedi'u trefnu. I ni mae'r adran gynllunio wedi bod yn ddefnyddiol ac yn broffesiynol, yn benodol wrth sefydlu proses sydd y gyntaf o'i math yn y DU."

▶ Dr Andy Pitman, Cyfarwyddwr Technegol, LIGNIA Wood Company

---

## Lilbits

Mae Lilbits, a sefydlwyd yn y Barri gan Sam a Samantha yn 2016, yn gwerthu adnoddau chwarae addysg fforddiadwy o safon i blant ac oedolion ag anghenion arbenigol. Cafodd eu gwefan ei hadolygu a chymeron nhw ran mewn cwrs technoleg ar-lein gan Gyflymu Cymru i Fusnesau a helpodd y ddau ohonynt i dyfu gwerthiannau 1200%. Maent wedi manteisio'n llawn ar weithdai Busnes Cymru ac yn cael mentora hollbwysig a chymorth cynllunio busnes gan Fusnes Cymru. Dechreuodd Lilbits ei daith fel manwerthwr ar-lein yn unedau busnes Cyngor Bro Morgannwg yng Nghanolfan Fenter y Fro ac ers hynny mae wedi tyfu ac erbyn hyn mae ganddo uned gadw yn y Barri.

"Gwnaethon ni gwrs Cyflymu Cymru i Fusnesau a chawson ni gymaint o gymorth am ddim, yr unig beth mae angen ei roi yw'ch amser."

▶ Samantha Cole, Cyd-sefydlwr, Lilbits








## Oakwater Interiors

Wedi gweithio ochr yn ochr â'i dad yn adeilad cwmni'r teulu a deall pam mor foddhaol yw gwylio eich busnes yn tyfu ac yn ffynnu, teimlodd Nicholas wedi'i ysbrydoli i sefydlu ei fusnes ei hun yn yr un diwydiant. Yn 2015, ganwyd Oakwater Interiors, busnes sy'n gwneud pob agwedd ar waith adeiladu, gan arbenigo yn y maes dylunio a gosod ceginau ac ystafelloedd ymolchi moethus. Mae Nicholas wedi cael ei fentora ac yn mynychu Clwb Dechrau Busnes y Fro a drefnir gan y Cyngor. Yn y 3 blynedd ers dechrau ei fusnes, mae'n parhau i dyfu a ffynnu, a heddiw mae'n cyflogi 6-12 contractwr y project ac wedi estyn ei bortffolio busnes i gynnwys datblygu eiddo.

> "Mae cymorth busnes mewnol y Fro yn wych; mae wedi helpu Oakwater i dyfu'n organig ac yn effeithlon. O'r cam cyntaf gyda swyddfa gyllid y Fro i fentora un i un a digwyddiadau clwb dechrau busnes hynod lwyddiannus, ni allaf ddiolch yn ddigon i'r Fro am fod yn gadarnhaol ac am roi arweiniad yn ystod y daith."

▶ Nicholas Gannon-Johns, Perchennog, Oakwater Interiors





Projectau Oakwater Interiors







economic@valeofglamorgan.gov.uk | 01446 704636




## Cobbles Kitchen and Deli

Yn 2016 gadawodd Chloe ei swydd yn y maes gwerthu i agor caffi mewn ysgubor a oedd bron yn adfail. Cefnogwyd Chloe gan fwrsariaeth o £3,000 i helpu i ddechrau'r busnes, gan ei galluogi i brynu offer ac i farchnata'r busnes newydd. Yn dilyn twf cyflym, sylweddolodd Chloe yn fuan y byddai angen mwy o gymorth arni.

Gyda help Banc Datblygu Cymru a chyllid UE gwledig Llywodraeth Cymru, ymestynnodd i'r ysguboriau cyfagos, gan ychwanegu cegin fasnachol ac offer newydd i fynd â'r busnes i'r lefel nesaf. Mae Cobbles yn fusnes sy'n ffynnu ac sy'n parhau i gael cymorth gan Gyngor y Fro a mentoriaid Busnes Cymru. Yn 2018, enillodd Cobbles y wobr Bwyty Cymru'r Flwyddyn yn y Gwobrau Bwyd ac yn 2019 mae wedi agor Cobbles Deli yn nhref arfordirol Llanilltud Fawr.

> “Nid cymorth ariannol rwyf wedi'i gael yn unig - rwyf hefyd wedi cael llawer o gyngor ac wedi gwneud ffrindiau gwych ar hyd y ffordd. Rwyf mor ddiolchgar am yr holl gymorth rwyf wedi'i gael ac yn parhau i'w gael sy'n helpu i wneud Cobbles yn llwyddiant!”

▶ Chloe Francis-Oakley, Perchennog, Cobbles Kitchen and Deli





# LLAFUR A SGILIAU



Coleg Caerdydd a'r Fro, Dumballs Road

Mae gan Fro Morgannwg gronfa gweithwyr dawnus ac mae'n gartref i rai o ysgolion y wladwriaeth sy'n perfformio orau yng Nghymru.

## Coleg Caerdydd a'r Fro

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn un o'r colegau mwyaf yn y DU, gan ddarparu addysg a hyfforddiant o safon ledled Prifddinas-ranbarth Cymru.

Gan weithio gyda 30,000 o ddysgwyr bobl blwyddyn - o bobl ifanc i oedolion -, mae gan y Coleg gynnig addysg uwch ac addysg bellach ymatebol enfawr a rhwydwaith eang o gyflogwyr. Hefyd hwn yw'r darparwr prentisiaethau mwyaf yng Nghymru.

Yn rhan o gynllun uchelgeisiol i ddatblygu'r brifddinas, mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi buddsoddi mewn campysau newydd sbon gwerth miliynau o bunnoedd a'u datblygu, gan ddarparu cyfleusterau ysbrydoledig sy'n bodloni gofynion y diwydiant. Mae cynlluniau ar waith i greu safleoedd newydd sylweddol ym Mro Morgannwg dros y 3 blynedd nesaf, gan gynnwys canolfan ragoriaeth ddynodedig sy'n cefnogi'n uniongyrchol sectorau mae angen eu tyfu sef y rhai aerofod, modurol, adeiladu a gweithgynhyrchu uwch. Mae'r cyfleusterau modern hyn yn cael eu datblygu yn unol â blaenoriaethau'r llywodraeth, anghenion cyflogwyr a chymunedau gan gefnogi'n uniongyrchol twf a ffyniant parhaus ym mhob rhan o'r rhanbarth.

"Rydym yn cefnogi ardal sy'n profi newid enfawr – un o'r poblogaethau sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, twf busnesau allweddol a sectorau'r diwydiant, mewnfuddsoddiad a datblygu economaidd sylweddol.

Rydym yn cydnabod y rôl ganolog rydym yn ei chwarae – cydweithredu â rhwydwaith helaeth o gyflogwyr i gefnogi gofynion cyfredol ac sy'n dod i'r amlwg am sgiliau; darparu cynnig sgiliau llawn gwybodaeth a chryf; a datblygu pobl fedrus y gellir eu cyflogi sy'n sicrhau gweithwyr dawnus a dibynadwy i'r rhanbarth.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi twf a ffyniant y cymunedau, y busnesau a'r economi sydd gennym ac rydym yn falch o gael ein cydnabod yn bartner strategol allweddol ar gyfer adfywio cymdeithasol ac economaidd ledled ein rhanbarth". Mike James, Prif Weithredwr, Coleg Caerdydd a'r Fro.

> "...datblygu pobl fedrus y gellir eu cyflogi sy'n sicrhau bod gweithwyr dawnus a dibynadwy i'n rhanbarth."

▸ Mike James, Prif Weithredwr, Coleg Caerdydd a'r Fro

### O fewn taith awr mewn car o'r Fro

**Prifysgolion**

- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru

**Colegau**

- Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Y Cymoedd
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Coleg Castell-nedd Port Talbot
- UWC Atlantic College


Myfyrwyr, Atlantic College


Ysgol Gyfun y Bont-faen


Castell Sain Dunwyd, Atlantic College


Seremoni Graddio Myfyrwyr, Ysgol Westbourne


Myfyrwyr, Atlantic College

## Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Mae Bro Morgannwg yn elwa ar fuddsoddiad £174m yn ei hystâd addysgol.  Mae'r rhaglen yn gydweithrediad unigryw rhwng Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), awdurdodau lleol, colegau ac awdurdodau esgobaethol.

Mae'r Fro yn cynnig dewis o ysgolion preifat a chyhoeddus sy'n perfformio'n dda i fodloni anghenion teuluoedd.

Yn ôl Parent Power The Sunday Times 2018, Ysgol Westbourne, Penarth yw'r ysgol orau yng Nghymru. Oherwydd addysgu rhagorol, mae'r ysgol wedi bod ar flaen tablau'r cynghrair ers y 4 blynedd ddiwethaf. Rhoddodd Estyn y sgôr rhagoriaeth uchaf i'r ysgol ym mhob categori archwilio yn 2018. Croesewir merched a bechgyn o 2 i 18 oed.

UWC Atlantic College, yng nghastell Sain Dunwyd o'r 12fed ganrif, yw coleg sefydlol y mudiad UWC byd-eang, sy'n credu y gall addysg uno pobl, cenedlaethau a diwylliannau er heddwch a dyfodol cynaliadwy.  Fel 'Ysgol Cenhedloedd', mae'r Coleg yn denu 350 o fyfyrwyr (16-19 oed) o fwy na 90 o wledydd ac o bob cefndir ethnig, gwleidyddol ac economaidd-gymdeithasol i fyw mewn tirlun dysgu unigryw ac astudio'r Bagloriaeth Rhyngwladol yno.

# FFORDD O FYW



Cottrell Park Golf Resort

Cyfrinach gorau Cymru yw Bro Morgannwg.  Y man mwyaf deheuol yng Nghymru yw hi ac mae ganddi arfordir trawiadol, traethau penigamp a môr gwych i syrffio ynddo.  Oherwydd hyn, y Fro yw'r lle perffaith i fyw a gweithio.

Mae'r Fro yn gymysgedd o fryniau isel a lonydd gwledig prydferth ac mae'n boblogaidd oherwydd ei threfi hanesyddol prysur.  Gellir defnyddio rhwydwaith o lwybrau cerdded a llwybrau ceffyl heb ei ail i archwilio'r eglwysi a'r cestyll hanesyddol niferus yn yr ardal.

Mae'r Fro, sy'n faes chwarae perffaith ar gyfer anturiaethau awyr agored, yn cynnig mwy nag y gallwch ofyn amdano o ran dilyn ffordd iach o fyw.  Hwyl ar y traeth, chwaraeon dŵr, cerdded, beicio neu fwynhau'r olygfa o un o'r cyrsiau golff niferus.

Mae'r Fro yng nghanol rhanbarth sydd â llawer i'w gynnig.  I'r dwyrain, ceir Caerdydd, y brifddinas, sydd yn aml yn cael ei phleidleisio'n un o'r dinasoedd gorau.  Nid oes syndod bod llawer o bobl yn dewis y Fro i gael y cydbwysedd perffaith rhwng gwaith a bywyd.

I'r gogledd, y tu hwnt i'r Cymoedd lle daw treftadaeth ddiwydiannol Cymru i fyw, dewch o hyd i gopaon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.



The White Hart, Llanilltud Fawr




Santes Ilar



Arfordir Treftadaeth Morgannwg



economic@valeofglamorgan.gov.uk | 01446 704636



**9,000**

Cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu ym Mro Morgannwg

**£29,551**

Cyflog Gros ar Gyfartaledd ym Mro Morgannwg

(Swyddfa Ystadegau Gwladol 2018)

**£217,995**

Pris Tai ar Gyfartaledd ym Mro Morgannwg

(Cofrestrfa Tir EM Ionawr 2018)



Bae Dwnrhefn



Castell Ogwr



Llanilltud Fawr Hanesyddol



Cwm Traeth Col-huw, Llanilltud Fawr



Dinas Powys

> “Mae Cymru’n baradwys i bobl sy’n frwd dros yr awyr agored, ac mae llawer mwy o bobl wedi ymweld â hi yn y blynyddoedd diwethaf i chwilio am bethau llawn cyffro.  Mae’n anodd curo’r amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael ym Mro Morgannwg sy’n esbonio pam mae un o gyfrinachau gorau Cymru yn dod yn lle poblogaidd ar gyfer gweithgareddau antur.  Mae’r arfordir syfrdanol a’r cefn gwlad hygyrch yn golygu y gallech chi fod yn gwneud rhywbeth gwahanol bob dydd, boed hynny’n dringo, yn beicio, yn padlfyrddio ar eich sefyll, yn canŵio neu’n mynd am dro ar glogwyni uchel Llwybr Arfordir Cymru.”

▶ Paul Donovan, Cadeirydd, Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru (STAC)



Gardd Berlysiau’r Bont-faen



Gerddi Dyffryn



Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston



Sinema ar lan y môr, Ynys y Barri



Aberogwr



Goleudy Trwyn yr As



Marina Penarth


Parc Gwledig Porthceri





Llyswyrni


Penny Lane, Y Bont-faen


Bae Whitmore, Ynys y Barri


Bae Whitmore, Ynys y Barri




Vale Resort, Hensol


POLICE PUBLIC CALL BOX
POLICE TELEPHONE
FREE
FOR USE OF
PUBLIC
ADVICE & ASSISTANCE
OBTAINABLE IMMEDIATELY
OFFICERS & CARS
RESPOND TO ALL CALLS
PULL TO OPEN

# AR LEOLIAD



Trwy garedigrwydd BBC Doctor Who

Mae Bro Morgannwg yn llawn hanes sinematig gan ei bod wedi'i defnyddio i gynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu.  Mae ynddi gymysgedd amrywiol o leoliadau dinesig, arfordir a chefn gwlad hardd.

Mae'r lleoliadau hyn wedi ysbrydoli amrywiaeth o arlunwyr ac ysgrifenwyr, yn bennaf Castell Sain Dunwyd a brynwyd gan William Randolph Hearst yn 1924 ac sy'n gartref i UWC Atlantic College erbyn hyn.  Mae pobl sydd wedi bod yn westeion yn y castell yn cynnwys Charlie Chaplin, John F. Kennedy a George Bernard Shaw.

Mae sir ei hun wedi cynnal amrywiaeth o gynyrchiadau Hollywood gydag actorau megis Kevin Costner, Tommy Lee Jones a'r Fonesig Judi Dench.  Mae lleoliadau amrywiol Bro Morgannwg hefyd wedi cael eu cynnwys mewn cynyrchiadau teledu o'r radd flaenaf ar gyfer dramâu cyfoes a chyfnod, gan gynnwys Doctor Who, Wolf Hall, The Hollow Crown a Sherlock.

Mae Caerdydd gerllaw yn hyb i'r cyfryngau a'r teledu.  Mae ganddi gronfa criwiau a gweithwyr cyfryngau proffesiynol profiadol iawn yn y ddinas a'r cyffiniau.

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn gweithio'n agos gyda Sgrin Cymru i gefnogi cwmnïau ffilm i ddod o hyd i leoliadau a chael popeth y mae ei angen arnynt ar gyfer y cynhyrchiad perffaith.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â film@valeofglamorgan.gov.uk



Trwy garedigrwydd Mythic International Entertainment (Ironclad)



(h) Hawlfraint y Goron (2019) Sgrin Cymru (Petroleum Spirit)



Trwy garedigrwydd Tiger Aspect Productions (Decline and Fall)



(h) Hawlfraint y Goron (2019) Sgrin Cymru  (Casualty)



Trwy garedigrwydd Lionsgate (Criminal)


A4064
A4063
A4065
A4063
M4
A473
A4061
PEN-Y-BONT AR OGWR
A473
TREOES
FFERM
GOCH
CRAIG PEN-LLIN
YSTRADOWEN
CORNTWN
A4222
PEN-LLIN
TREGOLWYN
A48
ABERTHIN
ABEROGWR
SAINT-Y-BRID
Y BONT-FAEN
A4222
LLYSWYRNI
SOUTHERNDOWN
LLANDŴ
BRO MORG
Y WIG
SIGIGNSTONE
LLAN-FAES
EGLWYS BREWIS
ARDAL FENTER
SAIN TATHAN
LLANILLTUD FAWR
SAIN TATHAN
MÔR HAFREN
0 km
5 km


G
M4
A4054
A468
A4222
A4119
A4054
A4119
A469
A470
A4119
A4161
A4119
A4232
A470
A4234
A4119
A4160
CAERDYDD
PENDEULWYN
LLANBEDR-Y-FRO
TRESIMWN
SAIN NICOLAS
CROES CWRLWYS
GWENFÔ
LLANDOCHAU
GANNWG
A4055
DINAS POWYS
PENARTH
LLANCARFAN
A4050
A4226
A4226
A4231
Y BARRI
SILI
CPARTH MENTER MAES AWYR CAERDYDD
A4055
A4055
YNYS Y BARRI
Y RHWS
MÔR HAFREN

VALE OF GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

*CYNHYRCHWYD GAN:*

Adran Datblygu Economaidd Cyngor Bro Morgannwg

*CYSYLLTWCH Â NI:*


01446 704636

economic@valeofglamorgan.gov.uk

www.valeofglamorgan.gov.uk/business

Dilynwch ni @ValeEconomy

Ewch i'n tudalen Facebook yn www.facebook.com/valeeconomy





Cydnabyddiaeth:
Yn cynnwys gwybodaeth y sector cyhoeddus a drwyddedir gan y Drwydded Llywodraeth Agored f3.0.

Cydnabyddiaeth ar gyfer y ffotograffau: (h) Aston Martin (2018), (h) Philip Dascombe 2018, (h) Hawlfraint y Goron 2018 (Croeso Cymru).
Diolch i Sgrin Cymru am y ffotograffau ffilm.

Dyluniwyd gan Philip G. Dascombe


Llwybr Arfordir Cymru, Llanilltud Fawr